Manylion Caffi'r Morglawdd
2021

Cyflwyniad

Mae cyfle wedi codi i brydlesu a gweithredu Caffi'r Morglawdd, sydd wedi'i leoli ar Forglawdd Caerdydd. Mae'r Cyngor bellach yn cynnig prydles 5 mlynedd o leiaf ac yn dymuno gwahodd ceisiadau gan bartïon â diddordeb. Daeth masnachu i ben yn flaenorol ym mis Mawrth 2020 a hoffai'r Cyngor i fasnachu ailddechrau cyn mis Ebrill 2022.

Bydd ail safle ategol hefyd yn cael ei gynnig ochr yn ochr â'r cyfle hwn fel opsiwn mewn lleoliad tuag at ben gogleddol / Caerdydd y Morglawdd. Nodwch yn eich tendr a hoffech fanteisio ar yr opsiwn hwn. (gweler isod).

Pennir y rhent yn ôl y cynigion, gyda ffigwr canllaw o £20,000 mil y flwyddyn a TAW. Cesglir y rhent ymlaen llaw, ac mewn rhandaliadau chwarterol oni chytunir fel arall gyda'r tenant llwyddiannus. Bydd y Cyngor yn asesu cynigion rhent, ymrwymiadau at fuddsoddi er mwyn gwella'r cyfleuster ac unrhyw gynigion ar gyfer gwella trosiant yn rhan o'r meini prawf asesu (gweler isod).

Bydd gofyn i'r tendrwr llwyddiannus gytuno ar y les a'i harwyddo cyn meddiannu'r safle. Rhoddir y les ar y sail y bydd hawl awtomatig y tenant i adnewyddu'r les wedi ei heithrio gan y llys.

Y defnydd a ganiateir fydd caffi, yn cynnig bwyd a diod ysgafn a mannau eistedd y tu allan, yn ystod oriau'r dydd.

Bydd eich cwsmeriaid yn adlewyrchu proffil ymwelwyr eang y Morglawdd. Grwpiau cwsmeriaid allweddol yw cymudwyr, cerddwyr rheolaidd a cherddwyr cŵn, grwpiau o deuluoedd, pobl ar dripiau dydd a thwristiaid.

Yr eiddo

Gweler safle'r caffi yn **Atodiad 1**.

Mae'r eiddo'n llai na 5 mlwydd oed (gan fasnachu am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2018), wedi'i adeiladu o gynwysyddion llongau ac wedi'i ddodrefnu i ansawdd uchel. Mae gan yr adeilad wasanaethau trydan, dŵr a thelathrebu.

Mae gan y cyfleuster doiled rhyw cymysg ynghyd â thoiled i bobl anabl. Caiff y seddi presennol eu cynnwys yn y cynnig hwn. Mae'r gegin â'r holl gyfarpar ar hyn o bryd ond nid yw'r cyfarpar hwn wedi'i gynnwys yn y cynnig. Fodd bynnag, byddai gan y tenant blaenorol ddiddordeb mewn trafod gwerthu'r cyfarpar gyda'r tenant newydd.

Dangosir cynllun llawr yn **Atodiad 1A.**

Mae'r cyfleuster wedi dod yn ganolbwynt ar y Morglawdd gyda golygfeydd helaeth ar draws Bae Caerdydd. Mae'r Safle yn elwa ymhellach o fod wedi'i leoli ar lwybr cymudo prysur iawn sy'n cysylltu Caerdydd â Phenarth.

Gweler lleoliad y safle ategol yn **Atodiad 2**. Nid oes unrhyw wasanaethau sefydlog ar y safle hwn a rhagwelir y bydd gwasanaeth symudol yn gweithredu ar y cyd â'r caffi parhaol.

Amodau masnachu a nifer yr ymwelwyr

Mae gan Awdurdod yr Harbwr offer cyfrif pobl awtomataidd wrth y ddwy fynedfa i'r Morglawdd, sy'n galluogi iddo fonitro nifer yr ymwelwyr.

Mae peth o'r data hwn wedi'i nodi isod er mwyn llywio cynllun busnes y darpar Weithredwyr.

Mae mwy na 1m o bobl yn ymweld â'r Morglawdd bob blwyddyn.



Manylion Caffi'r Morglawdd
2021



Mae nifer yr ymwelwyr dyddiol yn amrywio'n sylweddol. Tywydd yw prif sbardun nifer yr ymwelwyr, ond fel y dengys y graffiau uchod ceir amrywiad tymhorol cyffredinol hefyd.

Fel y disgwylid, ceir y nifer fwyaf o ymwelwyr ar benwythnosau, gwyliau ysgol a Gwyliau Banc.

Mae modd gweld y cyfleuster trwy drefnu apwyntiad, cysylltwch â David Jones ar david.jones6@caerdydd.gov.uk

Digwyddiadau'r Morglawdd

Mae'r Morglawdd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn ac mae Awdurdod yr Harbwr yn cadw'r hawl i drwyddedu arlwywyr ychwanegol yn ardaloedd y digwyddiadau.

Ni fydd hawl gan y Gweithredwr i fynd i'r ardaloedd hyn nac yn agos atynt yn ystod digwyddiadau oni bai bod cytundeb rhyngddynt a threfnwyr y digwyddiad, yn nodi eu bod nhw'n cynnig gwasanaethau arlwyo.

Penawdau Telerau'r Les

Amseroedd Masnachu

Rhaid i'r tenant fod ar gael i fasnachu o'r safle o fewn oriau golau dydd arferol, o ddydd Llun i ddydd Sul.

Gall y tenant gadw'r safle ar gau am hyd at bum diwrnod trwy gydol y flwyddyn dan gontract am unrhyw reswm, heb gael cosb.

Fodd bynnag, os bydd y Gweithredwr yn methu â masnachu ar fwy na 5 diwrnod, oni bai bod Awdurdod Harbwr Caerdydd wedi cytuno'n ysgrifenedig i hynny ymlaen llaw, bydd yn torri amodau'r brydles a gall y Cyngor arfer cymal terfynu.

Cyfrifoldebau ac ymrwymiadau'r tenant

Y tenant sy'n gyfrifol am gynnal yr holl osodiadau, ffitiadau ac offer yn y safle yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr ac am sicrhau eu bod nhw'n ddiogel ac mewn cyflwr da (gan gynnwys y caeadau). Bydd Awdurdod yr Harbwr yn parhau'n gyfrifol am rai cyfrifoldebau cynnal a chadw'r adeilad, gweler **Atodiad 3**.

Y tenant sy'n gyfrifol am sicrhau bod y tai bach mewn cyflwr glân a hylan y mae'r Landlord yn fodlon arno. Bydd Awdurdod yr Harbwr yn defnyddio cwynion cwsmeriaid fel y dangosydd perfformiad allweddol. Bydd unrhyw gwynion a dderbynnir gan y Cyngor yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd perfformiad rhwng y tenant ac Awdurdod yr Harbwr.

Y tenant sy'n gyfrifol am yr holl wasanaethau yn y safle, ac am y biliau trydan, dŵr a gwasanaethau eraill y mae'r safle yn eu defnyddio.

Mae angen i'r tenant gynnig biniau storio gwastraff â chaead addas yn yr ardal storio biniau dynodedig yn unol â chyfarwyddyd Awdurdod yr Harbwr a gwaredu holl sbwriel gweithrediadau'r caffi'n rheolaidd.

Y tenant sy'n gyfrifol am gasglu sbwriel cwsmeriaid o fewn cynllun yr ardal casglu sbwriel, gweler **Atodiad 4**.

Bydd rhaid i'r tenant gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

Y tenant sy'n gyfrifol am gynnal cytundeb rheoli plâu ar gyfer y Safle.

Bydd rhaid archwilio'r offer tân yn flynyddol a chadw cofnodion addas.

Bydd rhaid i'r tenant wneud asesiad risg a threfnu i offer gael ei archwilio'n rheolaidd rhag clefyd y lleng filwyr, yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID). Bydd rhaid cadw cofnodion addas er mwyn dangos cydymffurfiaeth, a dylai'r rhain fod ar gael er mwyn eu harchwilio ar gais y Cyngor.

Bydd y tenant yn cynnig gwasanaeth WiFi am ddim ar gyfer ei gwsmeriaid er mwyn parhau â'r gwasanaeth WiFi a sefydlwyd pan agorwyd y Safle. Bydd modd i'r tenant reoli ei wasanaeth fel y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn atal camddefnydd.

Rhaid i'r tenant a'i asiantau (e.e. staff cynnal a chadw cyfarpar a gyrwyr dosbarthu) gadw at Reolau Mynediad i Gerbydau'r Morglawdd a rhaid i gerbydau dosbarthu deithio ar hyd y llwybr a bennir. Gall achosion amlwg o dorri'r cod ymddygiad gan y tenant neu ei asiantau arwain at wrthod mynediad. Ewch i **Atodiad 5** i weld y llwybr.

Mae lle i eistedd y tu allan yn rhan o'r safle. Rhaid i'r tenant gyflenwi a chynnal ei ddodrefn awyr agored ei hun a chadw o fewn yr ardal a ddynodwyd gan Reolwr y Morglawdd. Ardal eistedd awyr agored i'w chadarnhau.

Y tenant sy'n gyfrifol am sicrhau bod ganddo Yswiriant Cynnwys, Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr.
Rhaid i'r tenant gyflawni sgôr hylendid bwyd 3/5 o leiaf. Os dyfernir sgôr is rhaid cywiro hyn o fewn 6 mis ar draul y Gweithredwr neu bydd y Cyngor yn cyflwyno hysbysiad am dorri amodau'r brydles.

Anogir y tenant i fonitro a rheoli tudalen TripAdvisor ar gyfer y busnes. Trafodir adborth cwsmeriaid, gan gynnwys adborth drwy safleoedd cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau chwilio yn y cyfarfodydd perfformiad rheolaidd.

Bydd y tenant yn gwneud ymdrech resymol i lanhau graffiti oddi ar y tu mewn a'r tu allan i'r Safle o fewn 24 awr i'w ddarganfod. Os na all y tenant waredu'r graffiti neu ei orchuddio gyda phaent sydd yr un lliw â'r paent presennol, rhaid iddo hysbysu Awdurdod yr Harbwr.

Efallai y bydd angen i'r tenant fynd i'r safle pan fydd y larwm yn canu y tu allan i oriau. Bydd angen iddo roi manylion cyswllt y gall swyddogion ar ddyletswydd yng Nghanolfan Derbyn Larwm y Cyngor eu defnyddio 24/7.

Cyfyngiadau ar y Gweithredwr

Ni cheir gwerthu na defnyddio unrhyw gynnyrch tybaco yn y safle.

Ni chaniateir gwerthu nac yfed alcohol yn y safle oni bai y ceir caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan Awdurdod yr Harbwr ac y gweithredir trwydded briodol.

Ac eithrio'r busnes sy'n gweithredu yn y safle, ni chaniateir hysbysebu masnachol yn y safle, oni bai y gwneir hynny gyda chaniatâd blaenorol Awdurdod yr Harbwr. Tynnir hysbysebion heb ganiatâd o'r safle.

Mae Awdurdod yr Harbwr yn cadw'r hawl i gau'r caffi ar adegau pan fydd mynediad yn cael ei gyfyngu, oherwydd gwaith gosod neu dynnu cyfarpar sy'n gofyn am beiriannau mawr yn y safle. Ni ragwelir y bydd hyn yn digwydd fwy na 10 gwaith y flwyddyn a rhoddir o leiaf 14 diwrnod o rybudd ar adegau o'r fath.

Rhaid i'r gweithredwr sicrhau, yn ystod amseroedd agor y caffi, y bydd y sgriniau dehongli/gwybodaeth (sydd wedi'u lleoli ar waliau mewnol y safle) yn weithredol. Awdurdod yr Harbwr fydd yn gyfrifol am ddarparu a chynnal y cynnwys a ddangosir.

Cyfrifoldebau ac ymrwymiadau'r Landlord

Bydd Awdurdod yr Harbwr yn darparu Yswiriant Adeiladau.

Bydd Awdurdod yr Harbwr yn cynnal larwm tresbaswyr a thân yn y Safle a'i fonitro drwy Ganolfan Derbyn Larwm y Cyngor.

Bydd Awdurdod yr Harbwr yn cynnwys busnes y tenant mewn gweithgareddau marchnata ar gyfer y Morglawdd. Pan fydd costau ar Awdurdod yr Harbwr i wneud hyn, bydd

Awdurdod yr Harbwr yn cadw'r hawl i anfonebu'r tenant am gyfran deg o'r costau. Rhennir y costau ar sail pro rata a chytunir arnynt ymlaen llaw bob amser.

Bydd Awdurdod yr Harbwr yn sicrhau lle parcio ar gyfer hyd at 7 cerbyd, gweler **Atodiad 1**

Cyfarfodydd Perfformiad

Bydd y tenant yn rhyddhau o leiaf un uwch aelod o staff i fynd i gyfarfod yn swyddogol ag Awdurdod yr Harbwr 3 gwaith y flwyddyn er mwyn trafod perfformiad.

Bydd yr agenda arferol yn cynnwys yr eitemau canlynol: Diweddariadau allweddol, perfformiad busnes yn erbyn rhagolwg, log cynnal a chadw a chydymffurfiaeth ag ymrwymiadau statudol, adborth cwsmeriaid, ac unrhyw fusnes arall. Dylai'r aelod(au) o staff sy'n mynd i'r cyfarfod feddu ar wybodaeth am weithrediadau'r busnes o ddydd i ddydd a chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y rheiny â goblygiadau ariannol. Caiff y flaenraglen ar gyfer digwyddiadau a drefnwyd ei rhannu ymlaen llaw gyda'r tenant i gynorthwyo gyda gwaith cynllunio staff.

Cyfnod Hysbysu

Bydd y Gweithredwr yn rhoi o leiaf 6 mis o rybudd i Awdurdod yr Harbwr os yw'n dymuno peidio â thendro i adnewyddu ar ddiwedd y cyfnod.

Bydd y Cyngor yn rhoi 6 mis o rybudd i'r tenant yn yr achosion canlynol: bod y Gweithredwr yn torri unrhyw un o amodau'r Brydles; os y diddymir y tenant yn wirfoddol neu'n orfodol; neu bod y Cyngor yn cael gwybod bod y tenant yn torri unrhyw ddyletswydd gyfreithiol neu statudol. Ni fydd gan y tenant hawl i unrhyw iawndal os bydd e'n derbyn rhybudd ac y terfynir y brydles o fewn cyfnod y brydles.

Rhaid i'r tenant dalu'n llawn y rhent sy'n ddyledus yn ystod cyfnod y rhybudd.

Adfer costau

Mae Awdurdod yr Harbwr yn cadw'r hawl i adfer unrhyw gostau gan y tenant sy'n codi yn sgil ei weithrediadau neu ddiffyg gweithredu yn unol â thelerau'r brydles.

Bydd y brydles yn cynnwys unrhyw delerau ac amodau eraill y mae cyfreithwyr Awdurdod yr Harbwr yn eu hystyried yn angenrheidiol a rhoddir y brydles lawn i'r cynigydd llwyddiannus.

Manylion Caffi'r Morglawdd
2021

Cyflwyno cynnig

Rhaid i gynigion ar gyfer hawliau tenant yng nghaffi'r Morglawdd gael eu hanfon mewn amlen wedi'i selio drwy ddosbarthiad cofnodedig i Giles Parker, Pennaeth Eiddo, Ystadau Strategol, D/O EJ Hales, 28 Plas Windsor, Caerdydd CF10 3SG erbyn hanner dydd, ddydd Gwener 2 Gorffennaf 2021.

Dylai partïon â diddordeb gwblhau a chyflwyno:

- Ffurflen Gais (Angenrheidiol)
- Datganiad bwriad/gweledigaeth fusnes (hyd at 500 gair)
- Cynllun Busnes a Gweithredu (cyhyd ag y dewisa'r cynigydd)
- Geirda banc (ar bapur llythyr y banc, yn tystio perthynas o ddwy flynedd o leiaf gyda'r banc ac yn cadarnhau arian unrhyw fuddsoddiad i'r busnes a bod eich cyfrif banc wedi ei gynnal yn foddhaol).
- Geirda busnes (Dylai'r Canolwr roi ei fanylion cyswllt, nodi sut mae'n eich adnabod chi a pham mae'n meddwl y byddech chi'n berson addas i redeg y busnes arfaethedig mewn tua 100 - 200 gair. Dylai'r canolwr fod yn wybodus am eich busnes/cynllun gweithredu ac ni all perthynas i chi fod yn ganolwr)
- Tystiolaeth o'r sgôr hylendid bwyd gyfredol os yw ar gael

Manylion Caffi’r Morglawdd
2021

Ymwadiad

1.) Rhoddir y wybodaeth uchod ac sydd wedi’i chynnwys yn y ddogfen hon fel amlinelliad cyffredinol yn unig o ganllawiau ar gyfer partïon â diddordeb ac ni ddylid ei hystyried yn rhan o gynnig neu gontract.

2.) Bydd pob person yn ymweld â’r eiddo ar ei gyfrifoldeb ei hun, ac ni dderbynia'r Cyngor unrhyw gyfrifoldeb am golled, difrod nac anaf pa ffordd bynnag y’u hachosir.

3.) Rhoddir pob disgrifiad, dimensiwn, llun a.y.b yn y ddogfen hon drwy drafodaethau â Swyddogion y Cyngor er gwybodaeth, heb unrhyw gyfrifoldeb, ac ni ddylai'r partïon â diddordeb ddibynnu arnyn nhw fel datganiadau neu sylwadau o ffaith; yn hytrach, bydd rhaid iddynt sicrhau eu bod yn fodlon ar y wybodaeth drwy archwilio neu drwy ddull arall.

4.) Mae Awdurdod yr Harbwr yn cadw’r hawl i beidio â derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb y mae’n ei dderbyn ac nid yw’n ymrwymo ei hun i dderbyn y cynnig ariannol uchaf.

5.) Anogir darpar denantiaid i wneud eu hymholiadau eu hunain ynghylch unrhyw ofynion cynllunio angenrheidiol ar gyfer y defnydd a fwriadant.

Manylion Caffi'r Morglawdd
2021

Atodiad 1



Manylion Caffi'r Morglawdd
2021

Atodiad 1A



Atodiad 2



Manylion Caffi'r Morglawdd
2021

Atodiad 3
Cyfrifoldebau Cynnal a Chadw a Gweithredol
Rhestrir cyfrifoldebau gweithredol.
Rhaid cadw'r eitemau a restrir yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr a rhaid eu hatgyweirio/disodli gyda rhai tebyg oni bai bod y partïon yn cytuno'n wahanol yn ysgrifenedig ymlaen llaw.
Mae mwy o fanylion am fanylebau yn ffeil Gweithredu a Chynnal a Chadw'r adeilad.

Eitem	Cyfrifoldeb y Gweithredwr	Cyfrifoldeb y Cyngor
Llinell ffôn Dual Com (larwm pwrpasol)		X
Llinell ffôn a chysylltiad â'r rhyngrwyd	X	
System larwm tresbaswyr	Rhoi gwybod am broblemau	X
System larwm tân	Rhoi gwybod am broblemau	X
Mynd i'r safle pan gaiff y larwm ei actifadu	X (os bydd angen)	
Larwm y tai bach i bobl anabl (Gweithredwr i ymateb pan gaiff y larwm ei actifadu)	Rhoi gwybod am broblemau X	
Gwifro Trydanol		X
Archwilio, cynnal a chadw ac atgyweirio'r system aerdymheru	X	
Archwilio, cynnal a chadw ac atgyweirio'r ffenestri, y drysau a'r system mynediad drws	X	
Goleuadau, bylbiau golau a gorchuddion goleuadau ynghyd ag unrhyw arddangosfeydd cysylltiedig	X	
Ffitiadau o fewn y tai bach (unedau newid babanod, seddi toiled a drychau) a mecanweithiau fflysio	X	
Sinciau a thai bach	X	
Peiriannau sychu dwylo	X	
Archwilio, cynnal a chadw ac atgyweirio'r gwresogyddion ar waliau'r tai bach	X	
Nwyddau yn y tai bach (papur toiled, hylif golchi dwylo, peraroglydd, gwasanaeth gwacau biniau cewynnau ac eitemau ar gyfer y mislif ac eitemau eraill y cytunodd y landlord a'r tenant eu bod yn angenrheidiol).	X	

Offer trydan bach sy'n eiddo i/a brydlesir gan y tenant a phopeth o fewn y safle	X	
Offer tân	X	
Profi'r boeler dŵr yn flynyddol	X	
Goleuadau argyfwng		X
Profion clefyd y lleng filwr	X	
Glanhau a rheoli'r tai bach. Tai bach/pibellau gwastraff wedi'u blocio rhwng y Safle a'r garthffos wastraff	X	
Gwaith haearn	X	
Archwilio, cynnal a chadw ac atgyweirio ffaniau awyru	X	
Profion trydanol bob pum mlynedd		X
Addurno waliau/lloriau mewnol	X	
Addurno gwaith paent allanol.	Adnewyddu pob 5 mlynedd i foddhad y Landlord	
Casglu sbwriel o'r tu mewn i'r ffin	X	
Gwacau biniau	X	
Casglu sbwriel o'r tu allan i'r ffin		X
Dodrefn awyr agored	Dodrefn y tenant	
Arwyddion	Arwyddion y tenant	
Archwilio, cynnal a chadw ac atgyweirio caeadau	X	
Gwaredu graffiti o'r safle	X	
Rheoli plâu, gan gynnwys clirio'r nythod gwenyn meirch o fewn 10m i'r Safle (os oes risg i'r cyhoedd)	X	

Manylion Caffi'r Morglawdd
2021

Atodiad 4

Atodiad 5

CARDIFF
CAERDYDD

Cardiff Harbour Authority Temporary Vehicle Pass

Background

The Cardiff Bay Barrage provides a **safe pedestrian and cycle route** linking Penarth Head to Cardiff Bay Inner Harbour.

Opening and Closing Times FOR AUTHORISED VEHICLE ACCESS:

07:00 – 22:00hrs, 7 days per week.

Please note the Barrage is open 24 hours for pedestrian and cyclist use.

Access for emergency vehicles is available at all times, for any further access enquiries contact Barrage Control on **02920 700234**

Night Time Use

Please be aware pedestrians and cyclists use the barrage in the hours of darkness and that they may be difficult to see.

Important Information

This road is generally for works access only and therefore the public do not expect or anticipate vehicle movements. Members of the public can and do cross the carriageway without looking, therefore great care should be taken when driving on site. Please note the Barrage is a private roadway and as such insurances may not be valid.

DRIVING SAFELY – Cardiff Bay Barrage.

Safety Is Our and Your Concern

Speeding across the Barrage will not be tolerated, the speed limits are as follows;

5 mph – Across Barrage Bridges, Locks and Sluices

20 mph – Along Barrage Embankment

There are three bridges on the Barrage that allow vessels to leave and enter Cardiff Bay. The bridge road decks are raised when vessels navigate the locks. The operation process is explained below;

Generally vessels lock out on the hour and half hour, incoming traffic locks in quarter past and quarter to the hour. A bridge operation takes approximately ten minutes. There are times when this can be longer, we do however endeavour to minimise any delay.

An announcement is issued on the P.A. system informing the public that a specific bridge will be raised; warning lights and claxons will sound.

At this point vehicles **must not** pass the warning lights. Stop prior to the yellow hazard areas marked on the roadway.

The road barriers will lower and the pavement barriers will swing close, the bridge will raise to allow the passage of vessels.

When vessels have passed the bridge will lower, an announcement is issued on the P.A. system that the safety barriers will open, the lights and claxons will be operating during this time. The process is completed when the claxons and lights cease operation; it is then safe to proceed.

We hope this sheet helps to explain our operations and that you make use of the roadway in a safe and responsible manner. Barrage Control can be contacted 24 hours a day if you have any further questions on 02920 700234. Cardiff Harbour Authority retains the right to refuse access to anyone who does not follow the rules and regulations above.

FFURFLEN GAIS – Caffi'r Morglawdd, Bae Caerdydd

I'w dychwelyd mewn amlen wedi'i selio drwy ddosbarthiad cofnodedig i Giles Parker, Pennaeth Eiddo, Ystadau Strategol, D/O EJ Hales, 28 Plas Windsor, Caerdydd CF10 3SG erbyn hanner dydd, ddydd Gwener 2 Gorffennaf 2021.

Enw a Chyfeiriad y Lesddeiliad

_____

_____

Cynnig Rhent _____

Ffynhonnell Arian _____

Cymeradwyaeth Angenrheidiol

_____

Amodau _____

Manylion y Cyfreithiwr _____

Rydych hefyd yn datgan drwy lofnodi'r datganiad isod:-

a) nid ydych wedi rhoi gwybod i unrhyw berson arall am swm eich cynnig ac ni fyddwch yn rhoi gwybod i unrhyw berson arall amdano; a

b) nid ydych wedi gosod swm y cynnig yn unol â threfniant gosod prisiau; a

c) rydych yn derbyn bod gan yr awdurdod yr hawl i ganslo'r contract ac i adennill unrhyw golled gennych sy'n deillio o'r fath drefniant os canfyddir bod gweithred lwgr neu dwyllodrus neu ddiffyg wedi digwydd a bod hynny wedi annog yr awdurdod i fynd i gontract.

Llofnod: Dyddiad:

Printiwch eich enw:

Swydd: